LANEq110

# Marchogaeth ceffylau mewn ardal amgaeëdig, o dan oruchwyliaeth

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â marchogaeth ceffylau mewn ardal amgaeëdig, o dan oruchwyliaeth. Bydd hyn yn cynnwys cerdded, trotian a hanner carlamu. Dylech allu gwneud symudiadau ysgol gan newid cyflymder a chyfeiriad. Mae'n berthnasol i'r rheiny sy'n gysylltiedig ag ymarfer ceffylau addas fel mater o drefn gyda chyfrwy.

Gwneir y sgiliau marchogaeth a ddisgrifir yn yr uned hon o dan oruchwyliaeth uniongyrchol.

Bydd angen i chi fod yn gwbl ymwybodol o bwysigrwydd iechyd, diogelwch a lles anifeiliaid mewn cysylltiad â'r gweithgaredd hwn.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. gwisgo'r dillad a'r offer amddiffynnol personol priodol ar gyfer y gweithgaredd, yn unol â'r cyfarwyddiadau
2. addasu harneisiau i fodloni gofynion unigol
3. mabwysiadu safle marchogaeth cytbwys, priodol nad yw'n niweidiol i'r ceffyl
4. marchogaeth y ceffyl o dan oruchwyliaeth mewn ffordd wedi ei reoli'n sy'n briodol i'r ardal amgaeëdig a'r amodau
5. bod yn ymwybodol o'ch iechyd a'ch diogelwch eich hun ac eraill, a lles y ceffyl, yn ystod y gweithgaredd

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut i ddefnyddio a gofalu am offer amddiffynnol personol
2. sut i addasu cenglau a gwartholion a pham y mae hynny'n bwysig
3. y rhesymau dros fabwysiadu safle marchogaeth addas
4. egwyddorion sylfaenol rheoli ceffyl
5. y peryglon yr ydych yn debygol o ddod ar eu traws wrth farchogaeth mewn ardal amgaeëdig
6. rheolau'r ysgol wrth farchogaeth ceffylau mewn ardaloedd amgaeëdig
7. eich cyfrifoldebau dros iechyd, diogelwch a lles anifeiliaid

## Cwmpas/Ystod

Marchogaeth y ceffyl:

- mewn cyfeiriadau syml
- symudiadau ysgol syml
- gyda newidiadau i gyflymder (cerdded, trotian a hanner carlamu)
- gan newid cyfeiriad

## Geirfa

Offer amddiffynnol:

- het
- menig
- esgidiau uchel
- dillad addas ar gyfer y gweithgaredd

LANEq110

# Marchogaeth ceffylau mewn ardal amgaeëdig, o dan oruchwyliaeth

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2017 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2017 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANEq110 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Cynorthwyydd Ceffylau |
| **Cyfres/Set** | Ceffylau |
| **Geiriau Allweddol** | ceffyl; ceffylau; trotian; hanner carlamu; cerdded; marchogaeth |